



## ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR AM Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2015 – 2016

Cyflwynir yma adroddiad y Llywodraethwyr am y flwyddyn academaidd 2015 - 2016 ar gyfer eich sylw. Nid yw'n ofynnol bellach i gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni i drafod cynnwys yr adroddiad. Mae croeso i chi gysylltu gyda'r ysgol neu gadeirydd y llywodraethwyr os ydych am drafod unrhyw beth.

Mae'r ddeddf newydd – sef deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru 2013 - yn nodi bod gan rieni hawl i wneud cais am gyfarfod gyda'r corff llywodraethol hyd at 3 gwaith y flwyddyn. Cysylltwch gyda'r ysgol os ydych eisiau mwy o fanylion am hyn. Diolch yn fawr.

### Y CORFF LLYWODRAETHU

Llywodraethwr	Penodwyd gan	Dyddiad gorffen
Mr Elwyn Edwards	A.A.LI.	31.08.16
Mrs Teleri Rowlands	A.A.LI.	31.08.18
Mrs Nia Roberts	Rhieni	1.08.16
Mrs Sian Edwards	Rhieni	31.05..20
Mrs Ffion Jones	Rhieni	31.08.16
Mr Aeron Prysor Jones	Cyfetholwyd	31.08.16
Mrs Angharad Davies	Cyfetholwyd	31.03.17
Mrs Geraint Davies	Cyngor C Llanycil	31.08.16
Ms Heledd Owen	Athrawon	31.08.18
Mrs Jano Owen	Prifathrawes	01.08.16

### Swyddogion:

Cadeiryddes	-	Mrs Nia Roberts
Is-gadeirydd	-	Mr Geraint Davies
Clerc	-	Mrs Lois Prysor Roberts

---

### Pwyllgor Disgyblu a Diswyddo Plant:

Nia Roberts, Aeron P Jones a Sian Edwards

### Pwyllgor Apêl Disgybl a Diswyddo Staff

Angharad Davies , Ffion Jones a Geraint Davies

### Pwyllgor Disgyblu a Gwahardd Disgyblion

Elwyn Edwards, Sian Edwards a Nia Roberts

### Pwyllgor Cwynion

Ffion Jones a Geraint Davies

### Pwyllgor Adolygu Tâl

Nia Roberts, Aeron P Jones, Teleri Rowlands a Geraint Davies

### Pwyllgor Cyllid

Nia Roberts, Aeron P Jones, Teleri Rowlands a Geraint Davies

### Pwyllgor Penodiadau a Staffio

Nia Roberts, Sian Edwards ac Aeron P Jones

### Pwyllgor Achwyniadau

Sian Edwards, Ffion Jones ac Elwyn Edwards

### Pwyllgor Adeiladau

Nia Roberts, Aeron P Jones, Teleri Rowlands a Geraint Davies

### Pwyllgor Cwricwlwm/ Polisiau

Angharad Davies, Ffion Jones, Sian Edwards, Elwyn Edwards a Heledd Owen

### Pwyllgor Rheoli Perfformiad

Teleri Rowlands, Nia Roberts, Ffion Jones, Sian Edwards

## Cynrychiolydd Amddiffyn Plant

Nia Roberts

## Cynrychiolydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

Sian Edwards

## Cynrychiolydd Cydraddoldeb Hiliol

Nia Roberts

## Arbenigrwydd Llywodraethwyr dynodedig

Cyfnod Sylfaen -- NR                      Dyniaethau – SE  
Llythrennedd – APJ                      Mynegiannol – AD  
Rhifedd – GD                      Ysgolion Eco – TR  
Cyngor Ysgol – EE                      Ysgol Iach – FfJ  
Addysg Gorfforol – GD

---

## CYFARFODYDD Y LLYWODRAETHWYR

Crynodeb o Gyfarfodydd Llywodraethol Blwyddyn 2015 - 2016:

### PWYLLGOR 1 (28.09.15)

Etholwyd Nia Roberts yn Gadeiryddes am flwyddyn ymhellach a Geraint Davies yn Is-gadeirydd. Penderfynwyd ar aelodaeth paneli ac Isbwyllgorau am y flwyddyn a mabwysiadwyd dogfennau Cylch Gorchwyl Is-bwyllgorau. Diweddarwyd ffurflenni *Buddiannau Busnes Llywodraethwyr*. Trafodwyd *Hyfforddiant Llywodraethwyr*. Casglwyd taflenni *Cofrestr Troseddau* gan bob llywodraethwr. Cytunwyd y dylai pob llywodraethwr arwyddo dogfen *Côd Ymddygiad* er mwyn sicrhau cyfrinachedd trafodaethau. Penderfynwyd ar *Flaenoriaethau 2015-6*. Rhannwyd Adroddiad y Pennaeth ar lafar a thrafodwyd sefyllfa cyllid yr ysgol. Yn sgil wynebu toriadau, rhoddwyd caniatâd i yrru llythyr i'r staff yn eu hysbysu o'r toriadau fydd yn eu hwynebu. Ailfabwysiadwyd ac arwyddwyd rhai polisiau. Trafodwyd dyddiadau pwyllgorau am y flwyddyn ac estynnwyd gwahoddiad i'r llywodraethwyr ymweld â'u blynyddoedd penodol.

### PWYLLGOR 2 (01.12.15)

Cafwyd adroddiad llafar o'r is-gyfarfod cyllid oedd yn trafod y diffyg tebygol ar gyfer 2016/2017 a chais llwyddiannus yr ysgol i fod yn rhan o gynllun Ysgol

Arloesi. Derbyniwyd *Adroddiad y Pennaeth ar Ganlyniadau CS a CA2* ac *Adroddiad Ymweliad 1*. Edrychwyd ar flaenoriaethau CDY 2015/2016.

Ailfabwysiadwyd rhai polisiau. Derbyniwyd *Adroddiad y Pennaeth*. Trafodwyd gohebiaeth benodol.

### PWYLLGOR 3 (25.03.16)

Trafodwyd cyllideb 2016/2017 a chyllideb 2017/2018, yn benodol toriadau staffio. Diolchwyd i HO am dderbyn y swydd Pennaeth mewn Gofal. Edrychwyd ar *Cynllun Datblygu Ysgol 2016/2017*. Darllenwyd a derbyniwyd y *Polisi Atal Radicaleiddio*. Trafodwyd cais Corff Llywodraethol Ysgol Ffridd y Llyn i ffedereiddio a chytunwyd i ffedereiddio mewn egwyddor. Derbyniwyd *Adroddiad y Pennaeth*. Cyhoeddwyd bod gan yr ysgol Arolwg gan estyn yn dechrau ar 17eg o Dachwedd. Trafodwyd gohebiaeth benodol a diolchwyd i JO am ei holl waith.

### PWYLLGOR 4 (26.04.16)

Croesawyd HO yn swyddogol i'w swydd fel Pennaeth mewn Gofal. Trafodwyd y bwriad o ffedereiddio ag Ysgol Ffridd y Llyn a'r camau nesaf. Cafwyd diweddiariad ar gwtogi oriau staff. Trafodwyd ffarwelio yn swyddogol gyda JO ar gyfer mis Gorffennaf. Trafodwyd gohebiaeth benodol, yn arbennig y datblygiadau yn y trefniadau ar gyfer dathlu Canmlwyddiant Gwrthryfel Iwerddon.

### PWYLLGOR 5 (28.06.16)

Ail-groesawyd SE fel aelod o'r llywodraethwyr ar ôl cael ei hail-ethol. Cafwyd crynodeb o'r dathliadau Frongoch/Iwerddon a llwyddwyd i wneud elw o £400. Bydd yr elw yma yn cael ei ychwanegu at elw noson y Shop2Drop er mwyn prynu sgrin rhyngweithiol i'r Neuadd. Bydd yr ysgol yn ddibynnol ar grant yr Ysgol Arloesi i gadw DR am 4 diwrnod ar gyfer 2016-17. Derbyniwyd *Adroddiad y Pennaeth* a chafwyd crynodeb o

ganlyniadau'r flwyddyn. Cyflwynwyd *Hunan-Arfarniad Blaenoriaethau CDY 2015-2016* ac edrychwyd ar *Flaenoriaethau CDY 2016-17*. Cafwyd crynodeb o *Adroddiad Anghenion Dysgu Ychwanegol*. Trafodwyd a derbyniwyd yr *Adroddiad Amddiffyn Plant* a chafwyd crynodeb o'r *Adroddiad Adeiladau*. Trafodwyd trefniadau ffarwelio JO. Trafodwyd gohebiaeth benodol, yn arbennig ymateb y Sir ac Ysgol O.M. Edwards i fwriad yr ysgol i ffedereiddio gydag Ysgol Ffridd y Llyn a thrafodwyd pwy fyddai'n aelodau o'r gweithgor ar y cyd gyda llywodraethwyr Ysgol Ffridd y Llyn.

\*\*\*\*\*

## POLISI DERBYN

Yn unol â Pholisi Derbyn Cyngor Gwynedd polisi'r ysgol hon yw:

- (a) derbyn plant yn rhan-amser ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed
- (b) derbyn plant yn llawn-amser ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 4 oed.

## NIFER Y PLANT

	CS	CA2	Cyf.
Medi 2015	20	32	52
Ionawr 2016	20	34	54
Ebrill 2016	21	33	54

## ATHRAWON a STAFF YR YSGOL

Pennaeth Mewn Gofal	Miss Heledd Owen
ac Athrawes y Cyfnod Sylfaen:	
Athrawon CA2	Miss Heledd Glyn Mr Daniel Roberts
Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen:	Mrs Lowri Parry
Cymhorthydd Anghenion	Miss Eleri Morris
Dysgu Ychwanegol:	
Ysgrifenyddes:	Mrs Eilw Davies
Glanhawraig:	Ms Elin Jones
Cogyddes a chlerc cinio:	Mrs Rhian Morris
Cymhorthydd Amser Cinio:	Mrs Lowri Parry
Uwch-oruchwyliwr Brecwast:	Mrs Meleri Thomas

## Athrawon Offerynnol

Billy Thompson	Gitâr	2 disgybl
Nia Morgan	Piano a Chanu	10 disgybl
Aled Williams	Corn a Gitâr	8 disgybl

## GWELEDIGAETH PENNAETH, STAFF A LLYWODRAETHWYR YSGOL BRO TRYWERYN YW:-

Creu ysgol hapus sy'n sicrhau fod pob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial yn addysgol a llesol.

Anelir i gynnig addysg o'r ansawdd uchaf bosib i bob plentyn mewn awyrgylch cartefol a phositif sy'n seiliedig ar gyd berthynos o barch, tegwch a gofal lle mae disgyblion yn cael eu hannog i ddatblygu'n ddysgwyr cyfrifol, annibynnol a hyderus.

Er mwyn selio'r bartneriaeth waith llwyddiannus sydd rhwng yr ysgol a'r cartref, arwyddir cytundeb Cartref/Ysgol gan yr ysgol, rhieni a'r plentyn ar ddechrau eu gyrfarwydd yn yr ysgol.



## **IAITH YR YSGOL**

Cymraeg yw prif gyfrwng iaith weinyddol yr ysgol a'r dosbarthiadau o ddydd i ddydd. Darperir addysg ddwyieithog i ddisgyblion gan anelu at gael bob disgybl yn gwbl hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn eu bod yn gadael yr ysgol.

## **GWASANAETHAU CREFYDDOL**

Cynhelir gwasanaethau ysgol gyfan ar Ddydd Llun, Mawrth a Iau a gwasanaethau dosbarth ar weddill dyddiau'r wythnos. Yn y gwasanaethau trafodir agweddau crefyddol a moesol amrywiol. Mae Owain Edwards a Hywel Edwards sef gweinidog yr ardal yn cynnal gwasanaethau yn yr ysgol yn fisol.

## **IECHYD A DIOGELWCH**

Iechyd a Diogelwch disgyblion yw prif flaenoriaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau Sirol a Cenedlaethol yn y maes ac mae nifer o bolisiau yn yr ysgol er mwyn sicrhau diogelwch y disgyblion ar y safle ac ar ymweliadau addysgol. Mae'r ysgol yn llunio ac yn adolygu asesiadau risg yn rheolaidd.

Cynhaliwyd archwiliad ar yr offer canlynol:

- Offer tân gan Gwmni Tân Llyn.
- Offer Addysg Gorfforol – Sportfix.
- Offer Trydan gan Cynnal
- Yr Hoist sy'n yr ystafell ADY

Cynhelir ymarfer tân yn dymhorol. Profi'r larwm tân yn wythnosol.

## **ADDYSG RHYW A PHERTHNASOEDD**

Y mae polisi Addysg Rhyw a Pherthnaseodd yr ysgol wedi ei ddiweddarau yn ddiweddar. Cyflwynir Addysg Rhyw yn yr ysgol fel rhan o thema Fi Fy Hun a phynciau fel Addysg Bersonol a Chymdeithasol a Gwyddoniaeth. Yn yr Adran Iau cyflwynir cyfnodau penodol yn ystod y flwyddyn i addysgu Addysg Rhyw Mae hawl gan rieni i eithrio eu plentyn o sesiynau yn dilyn derbyn gwybodaeth o'r ysgol am gynnwys unrhyw sesiwn. Ymatebir yn sensitif i unrhyw ymholiadau a wneir gan ddisgyblion

## **CYFLEOEDD CYFARTAL I BOB DISGYBL**

Mae'r gan yr ysgol bolisiau cadarn i sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob disgybl ac i sicrhau y caiff pob disgybl gyfle i lwyddo hyd eithaf ei allu, waeth beth fo'i anghenion addysgol neu gorfforol, ei ryw neu ei hil. Mae'r ysgol hefyd yn sicrhau na chaiff unrhyw beth nac unrhyw un amharu ar y cyfleoedd y caiff pob disgybl yn yr ysgol.

## **ANABLEDD CORFFOROL**

Croesawn bob plentyn i'r ysgol, beth bynnag yw ei anabledd.

Mae ystafell yn yr ysgol ar gyfer yr anabl. Mae yn cynnwys hoist ac ystafell wlyb ar gyfer cawod. Ni ddaeth plentyn anabl i'r ysgol hon yn ystod y flwyddyn 2015 - 2016. Pe bai plentyn anabl yn dod i'r ysgol byddai pob darpariaeth posibl yn cael ei gynnig.

Mae'r Brif Fynedfa a'r 2 Fynedfa arall wedi eu haddasu ar gyfer cadair olwyn.

## **CODI TAL AM WEITHGAREDDAU AC YMWELIADAU ADDYSGOL.**

Er mwyn sicrhau profiadau addysgol cyffrous a chyfoethog i ddisgyblion Bro Tryweryn, rydym yn ceisio mynd â disgyblion ar ymweliadau addysgol neu wahodd arbenigwyr i'r ysgol yn bur gyson. Byddant hefyd yn mynychu gwersi nofio ag Addysg Gorfforol yng nghanolfan Hamdden Penllyn. Rydym yn anelu bob amser at gadw costau unrhyw ymweliad cyn ised â phosibl. Pan fo angen, bydd yr ysgol yn gwahodd rhieni i gyfrannu at gostau ymweliadau.

## **CYFLWR TOILEDAU'R YSGOL**

Mae toiledau'r ysgol mewn cyflwr da iawn ac yn cael eu cadw yn lân a thaclus.

## **HYBU BWYTA AC YFED YN IACH YN YR YSGOL.**

Mae hybu i fwyta ac yfed yn iach y cael ei gyflwyno yn naturiol mewn gwersi ymhob dosbarth. Mae gan yr ysgol bolisi o ddim ond bwyta ffrwythau amser egwyl ac yfed llaeth. Gwiriwyd lefelau maeth brecwast a chinio ysgol gyda swyddogion gwasanaethau masnachol Gwynedd. Mae Grwp Byw'n Iach ymysg disgyblion yr ysgol sydd yn hybu hyn yn gyson. Anogir disgyblion a rhieni i sicrhau lefel maeth addas mewn bocsys bwyd ar gyfer ymweliadau.

## **LLAWLYFR YR YSGOL**

Mae llawlyfr yr ysgol yn cael ei ddsbarthu i rieni newydd bob blwyddyn. Bydd yn cael ei ddiweddarau yn flynyddol yn ôl y gofyn. Ni fu ychwanegiadau newydd i'r llawlyfr eleni. Os ydych yn teimlo yr hoffech gael copi cyfredol, gofynnwch yn yr ysgol ar bob cyfrif.

## **MWY O WYBODAETH AM UNRHYW AGWEDD O FYWYD YR YSGOL**

Holwch yn yr ysgol ar bob cyfrif. Gallwch gael sgwrs gyda'r Pennaeth neu'r athrawon unrhyw bryd. Mae dogfennaeth reolaethol a chwricwlaidd yr ysgol ar gael ar gyfer cyfeirio atynt os dymunir.

## **POENI AM AGWEDD O FYWYD YR YSGOL**

Os oes unrhyw beth yn eich poeni am unrhyw agwedd o fywyd yr ysgol cysylltwch â'r Pennaeth neu aelod o staff yr ysgol yn syth os gwelwch yn dda ac fe wnawn ein gorau i ddelio gydag unrhyw bryder. Mae hefyd yn bosib cysylltu â'r llywodraethwyr yn uniongyrchol (rhiant - llywodraethwr efallai) a gallent hwy dynnu sylw'r Pennaeth i'r mater.

## **ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

Mae Polisi Addysg Arbennig yr ysgol wedi ei seilio ar bolisi'r Sir, ac ar ddehongliad yr ysgol o ofynion Côt Anghenion Addysg Arbennig Ebrill 2002.

Heledd Owen yw Cydgysylltydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol a Sian Edwards yw Cynrychiolydd Anghenion Addysgol Arbennig y corff llywodraethol.

## **NIFER O BLANT AR Y RHESTR ADY 2015 – 2016**

- 1) *Gweithredu gan yr ysgol: 0*
- 2) *Gweithredu gan yr ysgol a mwy:3*
- 3) *3\*:2*
- 4) *Datganiad:0*

*Wrth edrych ar y canlyniadau hyn gwelwn fod y polisi AAA yn gweithio, gan fod y rhestr wedi codi ymwybyddiaeth yr athrawon o wahanol anghenion y plant.*

- 10% - 5 disgybl ar y cofrestr ADY yr ysgol.

## **CYNLLUN DATBLYGU YSGOL**

Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol yn ddogfen gynhwysfawr sydd yn delio gyda holl systemau cyllidol, rheolaethol, gweinyddol, bugeiliol a chwricwlaidd yr ysgol. Mae'n arf gwerthfawr ar gyfer rhag-gynllunio tymor byr a thymor hir ar draws holl agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. Nodir amserlen ar gyfer gwella safonau ac ehangu a chyfoethogi profiadau addysgol. Mae'r Cynllun Datblygu ysgol yn cynnwys y camau y bwriedir eu cymeryd i ymdrin â'r materion allweddol a nodwyd yn Adroddiad yr Arolygwyr, ynghyd â chanlyniadau a ddarganfyddwyd wrth ddilyn trefn Hunan-arfanu yr ysgol. Mae'n cael ei haddasu'n flynyddol.

Blaenoriaethau'r ysgol wedi derbyn sylw 2015 - 2016

### **BLAENORIAETH 1 : Llythrennedd**

CYFRANIAD AT GODI SAFONAU : Llythrennedd - Datblygu sgiliau llythrennedd yn arbennig darllen Saesneg ar draws yr ysgol – codi safonau ymhellach - Deiliant 6 a Lefel 5.

### **BLAENORIAETH 2 : Rhifedd**

CYFRANIAD AT GODI SAFONAU Rhifedd Datblygu sgiliau Mathemateg a Rhifedd ymhellach, yn y ddau gyfnod allweddol, yn arbennig rhesymu.

### **BLAENORIAETH 3 : Addysgu a Dysgu Rhagorol**

CYFRANIAD AT GODI SAFONAU:– Cynnal a chodi safonau addysgu a dysgu er mwyn galluogi pob disgybl i gyflawni hyd eithaf ei allu. Ffocws ar ddefnydd effeithiol holl elfennau asesu ffurfiannol drwy'r ysgol a datblygu ansawdd adborth ymhellach ac sicrhau amser i ddisgyblion ymateb i'r adborth

**BLAENORIAETH 4: Gwella strwythurau arweinyddol a rheolaethol yr ysgol ymhellach** – ateborwydd rhanddeiliaid

#### Cyfarfodydd / Cyrsiau Staff

- Holl athrawon a cymorthyddion yr ysgol wedi derbyn cwrs arbennig gan Elfyn Vaughen Jones - Datblygu Cymunedau Dysgu.
- DR – wedi mynychu cwrs Ang – athrawon newydd, cwrs Darllen ar gyfer bechgyn, Cwrs Llythrennedd Addysg Gorfforol, Cyfarfodydd Mentor Allanol gyda Mair Beech
- HO – wedi mynychu hyfforddiant ADY, Hyfforddiant Mentora Myfyrwyr TAR gan Gwawr Maelor – Prifysgol Bangor, Mynychu cynhadleddau Ysgolion Arloesi yn Abertawe – creu Cynllun Gweithredu i Ysgol Bro Tryweryn, Cwrs Cynllun Datblygu Ysgol gan GwE, Cwrs Amddifyn Plant Lefel 2
- HG - wedi cychwyn cwrs ar gyfer Cyd-lynwyr iaith – datblygu arweinyddiaeth Llythrennedd, cwrs Darllen Difyr, wedi mynychu hyfforddiant 3 diwrnod Cymorth Cyntaf. Cwrs Amddifyn Plant Lefel 2
- MT wedi mynychu hyfforddiant 1 diwrnod Cymorth Cyntaf.
- Holl staff yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant min nos gan Robin Williams ar ddefnyddio offer mesur tywydd yr ysgol.
- Holl staff yr ysgol (gan gynnwys staff y gegin) wedi derbyn hyfforddiant gan Gwenan Davies – Siarter Iaith.
- JO wedi mynychu Cynhadledd Penaethiaid Gwynedd, Cynhadledd NAHT, Cynhadledd Ysgolion Cymraeg Mewn Addysg. Cyfarfod gyda'r Gweinidog Addysg.
- HO, HG, DR wedi mynychu cyfarfod Ysgol i Ysgol – i ddechrau prosiect o ddatblygu cyd-lynwyr rhifedd – bwriad o greu Blaenoriaeth Rhifedd ar gyfer Cynllun Datblygu Ysgol 2016-17 ar y cyd gydag ysgolion gwyrdd/melyn
- LP – Decrhau cwrs lefel 2 Iaith Arwyddo

## CANLYNIADAU ASESIADAU DIWEDD CYFNOD ALLWEDDOL 2016

Dyma ganlyniadau asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol 2016.

### **Cyfnod Sylfaen ( Blwyddyn 2)**

Perfformio'n uwch na'r Teulu a Chymru ar ddeilliant 5. Perfformio'n well na'r teulu a chenedlaethol ar y lefel uwch (Deilliant 6)

Maes	Ysgol 2014 CS Deilliant 5 neu uwch	Targed
Iaith	100%	100%
Rhifedd	100%	100%
Personol	100%	100%

### **Cyfnod Allweddol 2 – ( Blwyddyn 6)**

Perfformio'n uwch na'r Teulu a Chymru ar lefel 4 yn y Gymraeg, Saesneg a Gwyddoniaeth.

Pwnc	Ysgol 2011 CA2 Lefel 4 neu uwch	Targed
Cymraeg	100%	100%
Saesneg	100%	100%
Gwyddoniaeth	100%	100%
Mathemateg	100%	100%

## GOSOD TARGEDAU

Gosodwyd targedau yn ôl disgwyliadau'r Swyddfa Gymreig ac fe'i hadolygir yn flynyddol, ond gan fod llai na 10 disgybl ar ddiwedd unrhyw gyfnod allweddol, nid yw'n ofynnol i'r corff llywodraethol gyhoeddi'r manylion.

## YR ADEILAD

Adolygwyd yr adeiladau gan aelodau'r Corff Llywodraethol.

## PRESENOLDEB 2015 - 2016

Presenoldeb Blwyddyn 2015 - 2016 = **97.1%**

Targed Presenoldeb 2016 – 2017

Blwyddyn 2015 – 2016	Blwyddyn 2016 – 2017	Blwyddyn 2017 – 2018
98%	98%	98%

## CHWARAEON

Y nod yw paratoi amrediad eang o brofiadau symud/chwaraeon i'r plant a fydd yn helpu a datblygu eu sgiliau corfforol.

- Tim Athletau Dan Do yr ysgol wedi cymryd rhan yng nghystadleuaeth Meirionnydd.
- Tim Pel-rwyd yr ysgol wedi cymryd rhan yng nghystadleuaeth Meirionnydd a wedi cyrraedd y rownd gyndderfynol.
- Pêl-droed: 2il yng nghystadleuaeth 5-bob-ochr Rhanbarth i Ysgolion.
- Pêl-droed Merched, Bechgyn a Chymysg yr Urdd
- Twrnament rygbi'r Urdd,
- Mabolgampau'r Urdd
- Athletau'r Urdd
- Twrnament rygbi 'Atomic Touch' gydag Euros
- Bore pêl droed yr Ewros gyda Choleg y Bala

## Cyngor Yr Ysgol

- 🚩 Cyngor wedi ei ail-sefydlu gyda swyddogion newydd.
- 🚩 Wedi trafod i ble mae arian Gwasanaeth Diolchgarwch i fynd.
- 🚩 Trefnu gweithgareddau Plant Mewn Angen
- 🚩 Trefnu gemau codi arian Noson Goffi
- 🚩 Trefnu Bore Coffi ar gyfer MacMillan
- 🚩 Gwneud penderfyniadau ar gyfer Diwrnod y Llyfr a Dydd Gwyl Ddewi.
- 🚩 Helpu i gyd-ysgrifennu a dylunio Gwefan newydd i'r ysgol.
- 🚩 Helpu i redeg a chynnal gweithgareddau Siarter Iaith.

## CYNLLUN YSGOLION IACH

Derbyniodd yr ysgol y 4 ddeilen llynedd sef ein bod wedi cwblhau Cam 4.

## YSGOL WERDD

Mae'r ysgol yn parhau i gael ei ail-achredu ar gyfer y Wobr Aur.

## SIARTER IAITH

Achredwyd yr ysgol ar gyfer y Wobr Arian a disgwyliwn y Wobr Aur erbyn diwedd yr Haf.

## Cystadleuaeth Tlws Pat Neill

Derbyniodd yr ysgol dystysgrif cydnabyddiaeth am gyfraniad tuag at annog barddoniaeth Gymraeg ar ôl anfon nifer fawr o gerddi i'r gystadleuaeth.

## Urdd Gobaith Cymru

- Pêl-droed: 2il yng nghystadleuaeth 5-bob-ochr Rhanbarth i Ysgolion; Rownd gyn-derfynol Pêl-Rwyd Meirionydd;
- Eisteddfod Yr Urdd – Bu pob un disgybl yr ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Cylch Penllyn eleni unai ar y llwyfan neu yn yr adran Celf a Chrefft. Daeth 26 gwobr Celf a Chrefft yn Eisteddfod Cylch ac yna 17 gwobr yn Eisteddfod Rhanbarth. Bydd gwaith celf grŵp Ellen Edwards, Gwen Rowlands a Catrin Ann Davies, a gwaith unigol Morgan Jones, Efa Rowlands ac Moli Jones yn mynd ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol y Fflint. Hefyd bu Moli yn cystadlu yng nghystadleuaeth Llefaru Blwyddyn 2 ac iau. Grŵp Dawnsio Gwerin Bl.5&6 a Chôr yr ysgol yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd yn Fflint, gyda'r côr yn llwyddo i gipio'r 3edd wobwr.
- Mabolgampau Talaith Gogledd Cymru – daeth tim ras gyfnewid B3 as 4 yn 1af a thim ras gyfnewid B5 a 6 yn 2il a daeth Catrin Ann yn 4ydd am daflu gwayffon Merched B5 a 6.

## Darllen – cwis Llyfau

Cymerodd disgyblion CA2 ran yng Nghystadleuaeth Cwis Llyfrau B3 a 4 a B5 a 6 Ysgolion Gwynedd a cafodd pawb eu canmol am y safon uchel.

Clwb TGCh – cynhaliwyd y clwb yn ystod Tymor yr Haf gyda Mr Roberts a disgyblion B 5 a 6 - pawb yn mwynhau creu ffilmau ac arbrofi gyda gwahanol dechnoleg.

## YMWELIADAU

### Ymweliadau â'r ysgol a Gweithgareddau Addysgol

#### Tymor Yr Hydref, 2015

- Hywel Edwards, Gweinidog yr ardal a Dr Owain Edwards, Coleg Y Bala, yn ymweld yn fisol i gynnal gwasanaeth
- Euros Jones – Swyddog Rygbi y Dalgylch – cynnal dwy sesiwn o rygbi yn wythnosol ar gyfer disgyblion CA2.
- Deintydd wedi ymweld a'r ysgol i gynnal archwiliad.



- Cyngor Ysgol wedi trefnu Bore Coffi ar gyfer MacMillan ac wedi casglu £278.15
- Diwrnod Plant Mewn Angen – pawb wedi gwisgo mewn byjamas ac wedi casglu £161.00
- Twrnament Rygbi ar gae Rygbi'r Bala rhwng ysgolion y Dalgylch.
- Disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 wedi ymweld â Byd Mari Jones ( gyda Bro Tegid)
- Disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 wedi ymweld â Chanolfan Glyndŵr, Machynlleth a Chanolfan Amgen, Corris (gyda Bro Tegid)
- Brodyr Gregory wedi cynnal Sioe Amgylcheddol yn yr ysgol ar gyfer y disgyblion i gyd a disgyblion Bro Tryweryn (gweler adroddiad Papur Newydd – Cambrian News a'r Cyfnod)
- Show Racism The Red Card ar gyfer disgyblion B5 a 6 Ysgolion Bro Tegid, Bro Tryweryn a Beuno Sant.
- Llysgenhadon Gwych yr ysgol sef Mared a Sioned wedi cyfarfod Comisiynydd Plant Cymru yn Llanellwyr, Laura Bugby yn ymweld i gychwyn Cynllun Gwen gyda Disgyblion Derbyn a Blynyddoedd 1 a 2 yn cymryd rhan yng nghynllun Gwen yn wythnosol.
- Disgyblion CS wedi derbyn y Ffliw Spre.
- Megan a Catrin Elen wedi cynrychioli'r ysgol yn Seremoni Siarter Iaith yn Ysgol Y Gader – yr ysgol wedi derbyn y Wobr Arian.
- 34 o ddisgyblion wedi derbyn medal am fynychu Llyfrgell Y Bala tair gwaith yn ystod gwyliau'r Hâf.

### Tymor Y Gwanwyn, 2016

- Hywel Edwards, Gweinidog yr ardal a Dr Owain Edwards, Coleg Y Bala, yn ymweld yn fisol i gynnal gwasanaeth
- Euros Jones – Swyddog Rygbi y Dalgylch – cynnal dwy sesiwn o rygbi yn wythnosol ar gyfer disgyblion CA2 a CS.
- Mrs Mair Beech wedi ymweld – mentor Daniel Roberts.
- Disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 wedi ymweld â Phentre Pergylon a Byd Mari Jones gyda Bro Tegid.
- Disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 wedi mwynhau dau ddiwrnod a noson yng Ngwersyll Glan-Ilyn.
- Disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 wedi mwynhau dau ddiwrnod a noson ym Mhlas Tan Y Bwlch.
- Phil Stead wedi cynnal gweithdy creu sylwebaeth i gemau gyfrifiadurol gyda disgyblion Blynyddoedd 5 a 6.
- Neil Dalrymple yn cynnal gweithdai Celf i greu murlun serameg ar gyfer Cofio 100 mlynedd Fron-goch.
- Disgyblion CS wedi mwynhau Sioe Mathemateg gan Techniquet – Parti Maths.
- PC John wedi ymweld i gynnal sesiynau gyda disgyblion yr ysgol.
- Bethan Gwanas wedi cynnal sesiwn "Trafod Stori" gyda disgyblion CA2.
- Disgyblion B5 a 6 wedi mwynhau Sioe Ditectif Mathemateg gan Techniquet.
- Radio Wales wedi bod yn cynhyrchu rhaglen gyda Lyn Ebesnezer Cofio 100 mlynedd Fron-goch.
- Disgyblion Derbyn a Meithrin wedi mwynhau sioe Dilyn Fi gan Cwmni Fran Wen yn Ysgol Bro Tegid.
- Disgyblion yr ysgol wedi mwynhau diwrnod yng Ngholeg Y Bala – Stori'r Pasg.
- Disgyblion CA2 wedi cymryd rhan – Cwis Llyfrau Gwynedd.
- Zoo Lab wedi ymweld i arddangos anifeiliaid bach.
- Mrs Elizabeth Jones wedi cynnal sesiwn trafod llyfrau gyda disgyblion CA2.
- Bethan Smallwood a Nia Roberts yn mynychu yn rheolaidd i hyfforddi'r canu a canu'r piano.

### Tymor Yr Haf, 2016.

- Hywel Edwards, Gweinidog yr ardal a Dr Owain Edwards, Coleg Y Bala, yn ymweld yn fisol i gynnal gwasanaeth
- Euros Jones – Swyddog Rygbi y Dalgylch – cynnal dwy sesiwn o rygbi yn wythnosol ar gyfer disgyblion CA2.
- Laura Bugby yn ymweld i fonitrio'r Cynllun Gwên.
- Neil Dalrymple wedi creu murlun gyda'r disgyblion hynaf – hanes Carchar Frongoch
- Myrddin ap Dafydd – wedi llunio cerdd "Connemara Meirionydd" gyda'r disgyblion hynaf i ddatlu camnlwyddiant hanes carchar Frongoch
- Robat Arwyn – wedi cyfansoddi cân gyda'r disgyblion hynaf i ddatlu camnlwyddiant hanes carchar Frongoch – gan ddefnyddio cerdd Myrddin ap Dafydd a'r plant

- Miriam James ar brofiad Ysgol cwrs TAR dros dymor yr Haf, o Brifysgol Bangor
- Naomi Harding – cyn ddisgybl, yma am brofiad gwaith o goleg Cambria am ddeuddydd
- Disgyblion Cyfnod Sylfaen a'r Meithrin yn derbyn gwersi nofio am 6 sesiwn
- Keith Bowen yr Arlunydd wedi dod i sgwrsio am ei waith, a gwaith Ausutus John am gelf yr Arenig gyda CA2
- Gwasanaeth Tân y Gogledd yn sgwrsio am ddiogelwch tân gyda holl ddisgyblion yr ysgol
- Chwaraeon- Pêl-droed Merched, Bechgyn a Chymysg yr Urdd, twrnament rygbi'r Urdd, Mabolgampau'r Urdd, Athletau'r Urdd, twrnament rygbi 'Atomic Touch' gydag Euros,
- Cwmni Key Strings yn dod i berfformio
- Eisteddfod yr Urdd yn fflint – y côr a dawnsio gwerin yn cystadlu
- Delyth Humpreys yn ymweld â disgyblion a rhieni bl.6
- Penwythnos dathliadau canmlwyddiant carchar Frongoch – plant yn canu eu cân, a sgwrsio gydag ymwelwyr
- Trip Ysgol CA2 – i Iwerddon
- Trip y Cyfnod Sylfaen i'r Bermo – ymweliad â Bad Achub RNLI, lan y môr a'r ganolfan chwarae Bendigedig.
- Coleg-y-Bala – pawns o bêl-droed yr Ewros
- Drama Saesneg – Legend of a Golden Dragon – CA2

### **Dinasyddiaeth Byd Eang - Casglu Arian at Elusennau**

- Bore Coffi MacMillan – £278.15
- Casgliad Gwasanaeth Diolchgarwch - £61.09 i UNICEF
- Plant Mewn Angen – £161.00
- Casglwyd 30 o focsys ar gyfer Operation Christmas Child.
- Achub Y Plant (Diwrnod Siwmpwr 'Dolig) - £35.50
- Bag2School – £229.60
- Troli Co-op - £442.10
- Cyngerdd Nadolig £523.00
- Easy Fundraising Medi-Mawrth 2016 £256.76
- Ffair Aeaf £809.00
- Shop2Drop £1095
- Dathliadau Canmlwyddiant Frongoch; stondin paned a chacennau £430

**Entrepenariaeth** – bu disgyblion CA2 yn gwneud cardiau, disgyblion Y Cyfnod Sylfaen yn gwneud addurniadau coeden Nadolig ar gyfer eu gwerthu yn y Ffair Aeaf.

### **Ymwneud â Rhieni/Cyfeillion yr Ysgol/Y Gymuned**

Cyfarfod Diolchgarwch wedi ei gynnal yng Nghapel Tal y Bont

Dr Owain Edwards a'r Parch Hywel Edwards yn cynnal gwasanaeth ysgol yn rheolaidd

Mrs Stonner yn gwrandao ar blant yn darllen bob bore Dydd Mercher.

Gwyn Jones yn cynnal Clwb pêl-droed amser cinio.

Cyngerdd Gŵyl Ddewi ar gyfer rhieni a chyfeillion

Mrs Beti Richards wedi bod yn hyfforddi'r Parti Cerdd Dant.

Mrs Bethan Smallwood wedi bod yn cyd-hyfforddi'r Parti Unsain a'r Côr gyda Mrs Owen.

Nosweithiau Rhieni wedi eu cynnal.

Noson Hog Roast a Mabolgampau.

Ffair Aeaf lwyddiannus wedi ei chynnal – gwnaed elw o £809.00 – Diolch.

### **Cyswllt ag Ysgol Bro Tegid, Ysgolion Cynradd Penllyn, Ysgol Y Berwyn a Ysgol Feithrin Maesywaen.**

Cynnwys agweddau megis:

### Cyd-weithio rhwng Ysgol Bro Tegid a Bro Tryweryn

- Cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal ar y cyd yn rheolaidd
- Cyfleoedd i graffu ar lyfrau disgyblion y ddwy ysgol
- Athrawon yn rhannu deilliannau cyrsiau:-
  - Owain Williams a Heledd Glyn wedi rhannu gwybodaeth yn dilyn cwrs Rhifedd.
  - Heledd Glyn wedi cynnal sesiwn rhannu gwybodaeth am "Geirio Gwych".

### Cyd-weithio rhwng ysgolion y Dalgylch.

- Athrawon a cymorthyddion CA2 ysgolion y Dalgylch wedi cyfarfod i greu Cymunedau Dysgu yn ffocysu ar nifer o wahanol agweddau. Cyfarfod bob tymor i ddatblygu'r prosiectau gwahanol.

### Cyd-weithio gydag Ysgol Y Berwyn

- Delyth Humphreys wedi ymweld a'r ysgol i gyfarfod disgyblion Blwyddyn 6 a'u rhieni.
- Disgyblion Blwyddyn 6 wedi ymweld â Ysgol Y Berwyn am ddau ddiwrnod.
- Bu athrawon B6 yn paratoi proffiliau disgyblion Lefel 4 a 5 yn y Gymraeg, Saesneg, Gwyddoniaeth a Mathemateg ac yna yn cynnal prynhawniau o gymedroli ar y cyd.

Bu plant meithrin o Ysgol Feithrin Maesywaen yn mwynhau cyfnod o 3 prawn yr wythnos yn yr ysgol bob prynhawn Mawrth, Mercher a Gwener.

### MASNACH DEG

Mae'r ysgol yn parhau i gefnogi gweithgareddau Masnach Deg drwy sicrhau ein bod yn archebu nwyddau Masnach Deg ar gyfer Noson Goffi, Bore Coffi – hefyd yn cynnal sesiynau dysgu.

### DYDDIADAU TYMHORAU AC AMSER SESIYNAU

#### Hydref 2016

- HMS: Dydd Iau 1af, Dydd Gwener 2il
- Dechrau i'r disgyblion: Dydd Llun, 5ed o Fedi
- Hanner tymor: Dydd Llun 24 Hydref - ddydd Gwener 28 Hydref
- HMS: Hydref 31ain
- Gorffen: Dydd Gwener, 16 Rhagfyr

#### Gwanwyn 2017

- Dechrau: Dydd Mawrth, 3 Ionawr
- Hanner tymor: Dydd Llun, 20 Chwefror - ddydd Gwener, 24 Chwefror
- HMS: Chwefror 27
- Gorffen: Dydd Gwener, 7 Ebrill

#### Haf 2017

- Dechrau: Dydd Llun, 24 Ebrill
- Calan Mai (Gŵyl banc): Dydd Llun, 1 Mai
- Hanner tymor: Dydd Llun, 29 Mai - ddydd Gwener, 2 Mehefin
- Gorffen: Dydd Gwener, 21 Gorffennaf

Bydd yr ysgolion yn ail-agor ddydd Iau, 1 Medi, 2016 i athrawon, a dydd Llun, 5<sup>ed</sup> o Fedi i ddisgyblion.

Diwrnodau HMS – Hyfforddiant Mewn Swydd i'r athrawon : Bydd yr ysgol wedi cau am 5 diwrnod. Dyma ddau ddyddiad gan y sir, a daw gwybodaeth am y dyddiadau eraill eto.

- **Hydref 31, 2016**

- **Chwefror 27, 2017.**

### Y Diwrnod Ysgol

Cofrestru: 9:00am  
Egwyl: 10:30am – 10:50am  
Cinio: 12:00pm – 1:00pm  
Egwyl: 2:10pm - 2:20pm  
Cau: 3:25pm

Arian cinio i gael ei gasglu ar fore Dydd Llun gan Mrs Morris. £11.50 am wythnos, £2.30 y diwrnod.